CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI,
CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

TÎM COMISIYNU

Adroddiad Monitro Contract

Enw/cyfeiriad y darparwr:	Cartref Preswyl Min-y-Mynydd, Eglwys Fan, Stryd y Bryn, Rhymni NP22 5JJ
Dyddiad yr ymweliad:	Dydd Mawrth 23 Mai 2017 am 09:30 a.m.
Swyddog(ion) ymweld:	Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau Andrew Davies, Swyddog Monitro Contractau
Yn bresennol:	Jennifer Carter, Rheolwraig

1 Cefndir

1.1. Mae cartref Min-y-Mynydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ddarparu gofal preswyl i bobl â dementia. Saif y cartref yn Rhymni ac mae'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac yn cael ei redeg ganddo.

1.2. Yn y gorffennol mae Min-y-Mynydd wedi cymryd rhan ym mhrosiect Age Cymru "Fy Mywyd mewn Cartref", ac yn fwy diweddar, mae wedi bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu ethos Dementia Care Matters yn y gwasanaeth.

1.3. Roedd yr ymweliad diwethaf yn un cadarnhaol, ac ni chofnodwyd unrhyw gamau unioni.

1.4. Gan ddibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, gellid rhoi i'r darparwr gamau unioni a chamau datblygu i'w cymryd. Camau unioni yw'r rheiny y mae'n rhaid eu cymryd, fel y'u llywodraethir gan reoliadau fel y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a chamau datblygu yw'r rheiny y bernir eu bod yn arferion da.

2 Argymhellion Blaenorol

2.1. Camau unioni

2.1.1. Dim un wedi'i gofnodi yn ystod yr ymweliad blaenorol.

2.2. Camau datblygu

2.2.1. Dim un wedi'i gofnodi yn ystod yr ymweliad blaenorol.

3 Canfyddiadau o'r Ymweliad

3.1. Dogfennau

3.1.1. Roedd y Cynlluniau Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth benodol iawn am y person yr oeddent yn ymwneud ag ef, ac roedd yr holl anghenion ac amodau perthnasol wedi'u cofnodi.

3.1.2. Roedd adolygiadau wedi cael eu cwblhau o leiaf pob mis, ac roeddent yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw beth oedd wedi digwydd dros y mis blaenorol. Roedd y staff wedi dangos tystiolaeth o ddarllen cofnodion dyddiol er mwyn llywio'r adolygiadau yn ôl yr hyn yr oeddent wedi'i gofnodi a thrwy gyfeirio at ddigwyddiadau penodol.

3.1.3. Nodwyd nad oedd rhai o'r Cynlluniau Gwasanaethau ac Adolygiadau wedi'u dyddio'n llawn. Mae hyn yn bwysig wrth gyflawni adolygiadau misol ac ati. Felly trafodwyd y mater hwn gyda'r Rheolwr, er mwyn i'r staff gael eu hatgoffa o bwysigrwydd dyddio dogfennau'n llawn.

3.1.4. Ni welodd y Swyddogion Monitro nodiadau dyddiol mis Mai. Fodd bynnag, roedd nodiadau mis Ebrill yn fanwl ac yn cyfeirio at weithgareddau digymell heb eu cynllunio fel sgwrsio, helpu'r gofalwyr i olchi llestri, mynd allan i'r ardd, mynd am dro i'r parc lleol, yn ogystal â'r gweithgareddau oedd wedi'u trefnu.

3.1.5. Ar un o'r ffeiliau a welwyd, nodwyd bod yr unigolyn wedi cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau, ac roedd ei lofnod yn y ffeil yn dystiolaeth o hyn. Mae cartref Min-y-Mynydd yn defnyddio system 'Fi yw Hwn' sy'n darparu gwybodaeth fanwl am gefndir yr unigolyn, gan roi i'r darllenydd wybodaeth bersonol bwysig am yr unigolyn fel ei alwedigaeth flaenorol, ei hoff/cas bethau, yr hyn sy'n peri gofid iddo, pynciau i'w trafod ac ati.

3.1.6. O'r ddwy ffeil staff a welwyd, nid oedd un yn cynnwys cofnodion cyfweliad.

3.1.7. Ymddangosai fod asesiadau risg yn y ffeiliau wedi cael eu cyflawni ar gyfer yr holl risgiau hysbys a'u bod yn benodol, yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Roedd strategaethau rheoli clir yn bodoli ar gyfer rheoli'r risgiau a nodwyd.

3.2. Perthnasau

3.2.1 Mae'r cartref yn annog pobl i ymweld â Min-y-Mynydd gyda'u teuluoedd cyn symud i fyw yno. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer yr ymweliadau.

3.2.2. Mae gan y cartref ffurflenni yn ffeil pob preswylydd sy'n nodi sut a phryd y dylid cysylltu â pherthnasau gyda manylion unrhyw ddigwyddiadau, salwch ac ati.

3.2.3. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pryd y caiff pobl ymweld â'r cartref na nifer y bobl a ddaw i mewn ar unrhyw adeg. Byddai'r cartref yn bodloni unrhyw geisiadau i aros dros nos gyda pherthnasau pe bai hynny'n bosibl.

3.3. Gweithgareddau

3.3.1. Anogir staff Min-y-Mynydd i hyrwyddo gweithgareddau dyddiol ymysg y preswylwyr, fel sesiynau trin dwylo, coluro a thrin gwallt ac ati.

3.3.2. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd y cartref yn disgwyl ymweliad gan werthwr dillad. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r preswylwyr edrych ar y dillad a'u prynu os ydynt yn dewis gwneud hynny.

3.3.3. Mae gan y cartref ardd lle caiff y preswylwyr dyfu eu planhigion neu lysiau eu hunain. Fel arfer, defnyddir yr ardd pan fydd y tywydd yn caniatáu.

3.3.4. Fel yn ystod yr ymweliadau blaenorol, mae gweithgareddau tymhorol a chyfamserol yn cael eu cynnal o hyd, gyda phethau fel pêl-droed, rygbi a garddio pan fo'r tywydd yn braf ac ati.

3.3.5. Mae'r cartref yn agos i'r cyfleusterau lleol yn Rhymni, sy'n hwyluso llawer o gyfleoedd i fynd allan i'r gymuned, fel mynd i siopa, mynd am dro i'r parc lleol a thripiau o'r cartref, yng nghwmni perthnasau lle bo'n bosibl.

3.3.6. Mae cyfleoedd hefyd i'r preswylwyr gynnal eu hannibyniaeth o ran bywyd pob dydd, er enghraifft gosod byrddau, tynnu llwch ac ati.

3.4 Cyfleusterau a Sylwadau

3.4.1. Esboniodd y rheolwr fod cynlluniau ar y gweill i wella'r amgylchedd yn y cartref, a bydd hwn yn brosiect parhaus gyda chymorth Adran Cyfleusterau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

3.4.2. Mae yna fannau ymarferol i'r preswylwyr eu defnyddio, fel cyfleusterau cegin. Mae'n bleser gweld hyn, gan y bydd yn galluogi pobl i wneud diodydd a byrbrydau'n annibynnol, ac ar eu cyflymdra eu hunain.

3.4.3. Trafodwyd materion ariannol y preswylwyr. Mae gan y cartref sêff lle mae'n cadw lwfans personol sy'n eiddo i'r preswylwyr. Dim ond swyddogion dynodedig sy'n cael agor y sêff.

3.4.4. Mae cartref Min-y-Mynydd wedi'i rannu'n dri 'thŷ' fel y gall y staff gynnig y gofal priodol i unigolion sydd wedi cyrraedd cam tebyg o ran dementia. Mae'r tri thŷ wedi'u henwi ar ôl blodau - 'Daffodil', 'Bluebell' a 'Primrose'.

3.4.5. Gall y preswylwyr ddefnyddio ffonau i wneud galwadau personol, a gellir gwneud hyn yn breifat. Pe bai aelod o'r teulu yn dymuno siarad â pherthynas yn nhŷ Daffodil neu Bluebell, byddai aelod o'r staff yn mynd gyda'r preswylydd i'r brif swyddfa i gymryd yr alwad. Byddai'r aelod o'r staff wedyn yn ei adael i siarad yn breifat. Byddai preswylwyr tŷ Primrose yn cymryd galwad ffôn yn y lolfa, lle cânt breifatrwydd.

3.4.6. Mae croeso i anifeiliaid anwes yng nghartref Min-y-Mynydd, ac mae rhai aelodau o deuluoedd yn mwynhau dod ag anifeiliaid anwes wrth ymweld â

pherthnasau. Mae rhai o'r anifeiliaid sy'n mynd i'r cartref yn eiddo i unigolion sy'n byw ym Min-y-Mynydd.

3.4.7. Roedd y rheolwr yn hyderus y gallai'r cartref ddiwallu anghenion crefyddol ac ysbrydol y preswylwyr. Mae rhai teuluoedd yn mynd â'u perthnasau i'r eglwys neu'r capel ar nos Sul. Nid oedd modd i un gŵr, oedd yn cael gofal seibiant yng nghartref Min-y-Mynydd, fynd i'w eglwys. Felly diwallodd y staff ei angen crefyddol trwy ddarllen darnau o'i Feibl iddo. Cafodd hyn ei werthfawrogi'n fawr iawn.

3.4.8. Yn ystod yr ymweliad, gwyliodd y swyddogion monitro'r drefn amser cinio. Nodwyd bod y staff yn ystyried anghenion y preswylwyr, ac yr ymddangosai fod pawb yn mwynhau'r bwyd. Yn benodol, gwelwyd bod pobl yn cael dewis, ac aeth y cogydd o amgylch pob bwrdd yn dangos y bwyd oedd ar gael, ac yn esbonio beth oedd cynnwys pob saig. Felly gallai'r preswylwyr weld ac arogleuo'r hyn oedd ar gael. Eisteddai aelodau o'r staff gyda'r preswylwyr ac roedd y sgwrs yn llifo. Gwelwyd aelod o'r staff yn gadael y man bwyta'n ddiffwdan gyda phreswylydd, gan ddychwelyd yn ddiweddarach. Roedd felly'n ymddwyn yn barchus ac yn cynnal urddas a phreifatrwydd y preswylydd.

3.4.9. Cedwir y drysau i'r cartref ar glo gyda chod am resymau diogelwch, oherwydd galluoedd gwybyddol a diagnosis y preswylwyr.

3.4.10. Mae'r mannau cymunol yn lân ac wedi'u haddurno'n ddymunol, gydag ystafelloedd ar wahân ar gael os oes angen preifatrwydd. Mae'r staff hefyd yn gallu symud celfi o amgylch yn y mannau cymunol gan ddibynnu ar yr hyn sy'n digwydd.

3.4.11. Anogir y preswylwyr i ddod ag eitemau personol a chelfi bach o'u cartrefi, er mwyn gwneud symud i'r cartref yn brofiad mwy dymunol a hefyd er mwyn sicrhau bod y cartref yn fwy cyfforddus i'r preswylwyr.

3.4.12. Mae mannau yn y cartref lle gall ymwelwyr siarad â phreswylwyr yn breifat os oes angen.

3.4.13. Wrth gyrraedd cartref Min-y-Mynydd, roedd yn amlwg bod y preswylwyr yn hapus yn y cartref. Gwyliodd y swyddogion monitro'r staff yn rhyngweithio â'r preswylwyr, a'r preswylwyr yn rhyngweithio gyda'i gilydd. Wrth eistedd gyda'r preswylwyr amser cinio, nodwyd ar y ddau lawr bod y preswylwyr wedi sefydlu perthnasoedd da ymysg ei gilydd a gyda'r staff gofal. Roedd cerddoriaeth yn chwarae yn y cefndir ar y llawr uchaf tra roedd y preswylwyr yn cael eu cinio, oedd yn ychwanegu at yr awyrgylch digyffro ac anffurfiol. Ar y llawr gwaelod sylwyd nad oedd cerddoriaeth yn y cefndir, a theimlai'r swyddogion monitro y byddai hynny wedi ychwanegu at y profiad amser cinio, er bod y profiad o hyd yn un da yn gyffredinol.

3.4.14. Roedd y byrddau yn y ddwy fan bwyta wedi'u gosod yn ddeniadol, gan greu awyrgylch cartrefol. Roedd un o'r preswylwyr yn bwyta ei chinio ychydig yn arafach na'r lleill, ond roedd yn hyfryd gweld y staff yn ei hannog i gadw ei hannibyniaeth o ran bwydo ei hun.

3.5. Staffio

3.5.1 Dywedodd y Rheolwr fod goruchwyliaeth y staff yn cael ei rhannu rhyngddi hi, y Dirprwy Reolwr a'r Uwch Swyddog Gofal. O'r ddwy ffeil staff a welwyd, roedd un yn cynnwys cofnod goruchwyliaeth oedd yn nodi goruchwyliaeth ddeufisol, ond roedd y llall yn llai rheolaidd. Dangosai'r matrics goruchwyliaeth nad yw sesiynau goruchwyliaeth bob amser yn cael eu cynnal pob dau fis i bob aelod o'r staff fel sy'n ofynnol.

3.5.2. Caiff y staff eu dysgu i fod yn hyblyg wrth ymateb i geisiadau'r preswylwyr. Caiff y diwrnodau eu harwain gan y preswylwyr cymaint ag sy'n bosibl.

3.5.3. Ar adeg yr ymweliad, nid oes preswylwyr yng nghartref Min-y-Mynydd sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Fodd bynnag, o gyflwyno Safonau'r Gymraeg ar 30 Mawrth 2017, gwneir pob ymdrech i weithio tuag at ddarparu gwasanaethau yn eu dewis iaith i breswylwyr sy'n siarad Cymraeg.

3.5.4. Cynhelir cyfarfodydd staff: un i staff y gegin ac un arall i'r gofalwyr. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, caiff unigolion y cyfle i drafod eu rolau a'u cyfrifoldebau ac i wneud unrhyw awgrymiadau o ran gwella'r gwaith o ddarparu gofal ac ati.

3.5.5. Gwelwyd dwy ffeil staff yn ystod yr ymweliad. Cadarnhaol oedd nodi bod y ffeiliau'n cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol, fel dau eirda, ffurflen gais fanwl a chofnodion cyfweliad. Nid oedd y ffeiliau'n cynnwys contractau cyflogaeth wedi'u llofnodi, a dywedodd y rheolwr efallai bod yr adran adnoddau dynol yn cadw'r rhain yn ganolog.

3.5.6. Cytunwyd y byddai'r rheolwr yn holi'r adran adnoddau dynol a yw'n cadw'r dogfennau hyn ai peidio. Os nad yw, dylid cadw contractau llofnodedig o'r fath yn ffeil yr aelod unigol o'r staff.

3.5.7. Pan ofynnodd y swyddogion monitro a yw'r gofalwyr yn gweithio mwy na 48 awr yr wythnos, dywedwyd bod rhai wedi gwneud, mewn achosion o argyfwng eithriadol, ond gwneir pob ymgais i ddatrys y sefyllfa mewn ffordd arall cyn gwneud cais o'r fath. Awgrymwyd i'r rheolwr y dylid gwneud ymholiadau ynghylch optio allan o'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd.

3.5.8. Gwelwyd tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ffeiliau staff. Dylai'r aelodau unigol o staff gadw'r tystysgrifau hyn. Pe bai aelod o'r staff eisiau i'r cartref gadw ei dystysgrif, dylai cydsyniad ysgrifenedig i'r cartref wneud hynny fod ar gael i'w weld.

3.5.9. Cafodd y swyddogion monitro gyfle i siarad ag aelod o'r staff. Dywedodd y gofalwr fod y staff yn cael y cyfle i gynnig awgrymiadau ynghylch y modd y gwneir y gwaith neu i awgrymu ffyrdd eraill o weithio. Mae rhai awgrymiadau wedi cael eu derbyn a'u rhoi ar waith, gan wneud pethau'n haws i'r staff a chaniatáu iddynt dreulio mwy o amser gyda'r preswylwyr.

3.5.10. Braf oedd clywed y gofalwr yn rhoi gwybodaeth bersonol am breswylydd

penodol i'r swyddogion monitro. Dangosodd y gofalwr dystiolaeth fod ganddo wybodaeth am hoff/cas bethau'r preswylydd, ei deulu a hefyd ei alwedigaeth flaenorol a'r ardal y deuai ohoni.

3.6 Systemau ansawdd

3.6.1. Dywedodd y rheolwr nad oedd adroddiad sicrhau ansawdd y cartref wedi'i gyflawni hyd yma. Fodd bynnag, caiff arolygon blynyddol eu dosbarthu i'r preswylwyr, eu perthnasau/eiriolwyr a'r staff i gael eu hadborth. Mae'r arolwg yn canolbwyntio ar fywyd yng nghartref Min-y-Mynydd ac yn rhoi cyfle i'r preswylwyr/perthnasau/eiriolwyr roi gwybod i'r cartref am yr hyn maent yn ei hoffi neu nad ydynt yn ei hoffi, a'r hyn yr hoffent ei weld yn y dyfodol.

3.6.2. Daeth nifer dda i'r cyfarfod i deuluoedd a gynhaliwyd ar 5 Mai 2017. Roedd yn gyfle i'r rheolwr ddod i adnabod perthnasau'r preswylwyr. Er na nodwyd unrhyw bryderon, un o'r pynciau a drafodwyd oedd yr 'Ymarfer Cydweddu' sydd ar waith yn y cartref ar hyn o bryd.

3.6.3. Proses yw'r 'cydweddu' lle caiff unigolion eu rhoi gyda'i gilydd yn unol â'u hanghenion. Bydd pob tŷ (Daffodil, Primrose a Bluebell) yn darparu lefel wahanol o ofal sy'n diwallu anghenion unigolyn yn y modd gorau.

3.7. Hyfforddiant

3.7.1 Mae hyfforddiant gorfodol i'r staff yn waith parhaus. Er hynny, gallai'r rheolwr gadarnhau bod yr hyfforddiant yn gyfredol, a bod cynnal rhaglen diweddaru hyfforddiant yn haws oherwydd y cydweithio diweddar rhwng adrannau hyfforddiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

3.7.2. Nid oedd modd gweld y matrics hyfforddiant, felly roedd yn anodd canfod unrhyw feysydd lle nad oedd y staff wedi cael hyfforddiant, neu lle roeddent i fod i gael hyfforddiant diweddaru.

3.8. Adroddiadau oddi wrth asiantaethau

3.8.1. Mae'r adborth a gafwyd oddi wrth berthnasau preswylwyr presennol cartref Min-y-Mynydd yn gadarnhaol dros ben. Mae'r cartref ar hyn o bryd yn cynnal yr ymarfer 'Cydweddu' a fydd, yn y tymor hir, yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir i'r rhai sy'n mynd trwy dri cham dementia.

3.9 Cyffredinol

3.9.1. Trafodir dymuniadau diwedd oes gyda'r rheolwr. Nod y cartref yw trafod hyn cyn gynted ag sy'n bosibl ac, o ddewis, cyn symud i'r cartref.

3.9.2. Yn dilyn marwolaeth preswylydd, byddai'r cartref yn parchu dymuniadau perthnasau i dreulio amser yn ystafell yr unigolyn, pe bai angen. Pe bai teulu'n gofyn i'r cartref ddarparu lluniaeth ar ôl angladd ym Min-y-Mynydd, gellid trafod hyn gyda'r rheolwr. Cynhaliwyd digwyddiad o'r fath yn y cartref yn ddiweddar,

a rhoddodd hyn gyfle i ffrindiau'r unigolyn o gartref Min-y-Mynydd, ynghyd ag aelodau o'i deulu, dalu teyrnged iddo a mwynhau hel atgofion amdano. Tystiolaeth yw hyn o'r awyrgylch cartrefol.

4. Camau unioni / datblygu

4.1. Camau unioni

4.1.1. Dylai'r holl gynlluniau gwasanaeth ac adolygiadau gael eu llofnodi a'u dyddio'n llawn h.y. 22 Mai 2017 nid Mai 2017. (Safonau Gofynnol Cenedlaethol 6.4 a 7.2) **Amserlen:** Parhaus - hysbyswyd y staff o'r gofyniad i gofnodi dyddiadau'n llawn.

4.1.2. Y rheolwr i wneud ymholiadau pellach ynghylch optio allan o'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd mewn perthynas ag wythnos waith 48 awr. (Safon Ofynnol Genedlaethol 20.3) **Amserlen: cyn pen 1 mis ar ôl dyddiad yr adroddiad.** Wedi'i gwblhau a bydd y staff yn llenwi'r ffurflen briodol.

4.1.3. Sicrhau y caiff cofnodion cyfweliad eu defnyddio a'u cynnwys yn ffeiliau'r staff (Safon Ofynnol Genedlaethol 22.1) **Amserlen**: **parhaus – mae'r cofnodion cyfweliadau wedi'u cynnwys yn y ffeiliau erbyn hyn.**

4.1.4. Staff i gael sesiynau goruchwyliaeth bob 2 fis.(Safon Ofynnol Genedlaethol 24.3)

4.2. Camau datblygu

4.2.1. Y cartref i ofyn i'r adran adnoddau dynol a yw'n cadw contractau wedi'u llofnodi. Os nad yw, dylid cadw contractau llofnodedig yn ffeiliau aelodau unigol o'r staff. - Wedi'i gwblhau a'r adran adnoddau dynol sy'n cadw'r manylion.

4.2.2. Y rheolwr i drafod â'r staff a ydynt yn dymuno rhoi cydsyniad ysgrifenedig fel tystiolaeth eu bod yn cytuno i'r cartref gadw eu tystysgrifau o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. – Wedi'i gwblhau – llythyrau/llofnodion yn y ffeiliau erbyn hyn.

4.2.3. Ar adeg yr ymweliad ni welwyd matrics hyfforddiant oherwydd problem technoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, ers yr ymweliad, mae dogfennau priodol wedi cael eu rhannu gyda'r swyddog monitro contractau.

4.2.4. Cyflwyno cerddoriaeth dawel yn y cefndir yn y man bwyta ar y llawr gwaelod – erbyn hyn mae system stereo fach yn y man bwyta.

5. Casgliadau

5.1. Roedd yr awyrgylch yng nghartref Min-y-Mynydd yn gadarnhaol ac roedd yn braf gweld y staff yn rhyngweithio â'r preswylwyr ac yn ymuno â hwy ar gyfer cinio. Roedd awyrgylch hyfryd a chynnes yn y cartref.

5.2. Roedd yn gadarnhaol iawn canolbwyntio yn ystod yr ymweliad monitro hwn ar y

ffordd mae pobl yn byw yn y cartref. Cafwyd cipolwg ar y ffordd mae'r preswylwyr yn treulio'u dyddiau, a'r ffordd mae'r staff yn eu cynorthwyo i wneud hynny.

5.3. Rhaid canmol y rheolwr a'r staff am weithio'n unol â Dementia Care Matters, ac am ddatblygu'r tri thŷ yng nghartref Min-y-Mynydd. Daeth nifer dda i'r cyfarfod i deuluoedd ac mae hon yn ffordd dda o gyfathrebu'n agored â'r preswylwyr a'r perthnasau.

5.4. Mae'n amlwg bod y staff wedi ymrwymo i gynnal gweithgareddau bob dydd, gan ddibynnu ar y tywydd ac yn unol â hoff/cas bethau unigolion.

5.5. Bydd y gwaith o fonitro cartref Min-y-Mynydd yn rheolaidd yn parhau. Hoffai'r swyddog monitro ddiolch i bawb am eu hamser, y wybodaeth a rannwyd, a'r croeso a gafwyd yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Caroline Roberts
Swydd: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: Dydd Gwener 13 Mehefin 2017

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael trwy safle rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael hefyd i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os ydynt yn gofyn i'w gweld.